| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD :** | **8 TACHWEDD 2011** |
| **TEITL YR ADRODDIAD :** | **CYFRIFON TERFYNOL 2010-11** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **ADRODDIAD EGLURHAOL AR GYFER CYFLWYNO DATGANIAD CYFRIFON TERFYNOL, GAN RODDI SYLWADAU AR Y PRIF FATERION YN DEILLIO O'R ARCHWILIAD O'R CYFRIFON** |
| **ADRODDIAD GAN :** | **SWYDDOG ADRAN 151 DROS DRO** |
| **GWEITHREDU:** | **CADARNHAU DERBYN Y DATGANIAD CYFRIFON** |

## 1 CEFNDIR

**1.1** Cyflwynwyd cyfrifon drafft 2010-11 y Cyngor Sir i'w harchwilio ar 21 Gorffennaf 2011. Mae'r gwaith archwilio manwl nawr wedi ei gwblhau a rhyddhawyd Adroddiad yr Archwilydd. Mae'r cyfrifon yn awr wedi cael eu diwygio fel y cytunwyd gyda'r Archwilydd Allanol. Yn amodol ar gadarnhad y Pwyllgor, mae'r cyfrifon i'w llofnodi gan y Swyddog Adran 151 Dros Dro ac, yn dilyn derbyn Tysrysgrif yr Archwilydd, bydd yn cael ei gyhoeddi.

## 2. AMSEROLDEB AC AGWEDDAU SAFON

**2.1** Fel amlygwyd yn Adroddiad yr Archwilydd, mae cyflwyno'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol wedi cael effaith sylweddol ar ddarpariaeth ac archwiliad o'r cyfrifon. Mae hyn wedi bod yn wir ym mhob awdurdod ond, yn achos y Cyngor, mae'r pwysau wedi dwysau oherwydd yr angen am ailbrisiant llawn o'r holl portffolio asedau sefydlog, oherwydd yr angen i wneud gwelliannau yng nghofnodion cyfrifo sail asedau sefydlog, ac oherwydd gwendidau system parhaus.

**2.2** Yn fyr, mae'r broses o ddarparu'r cyfrifon wedi bod yn un anghyffredin o feichus. Tra rhaid adnabod ni lwyddwyd i gwrdd â'r dyddiadau cau ym Mehefin a Medi, ac roedd oediadau yn argaeledd papurau gwaith, fel yr adnabyddwyd yn Adroddiad ISA 260 yr Archwilydd, gwnaethpwyd pob ymdrech i ryddhau'r datganiad terfynol mor brydlon a phosib. Mae proses eleni wedi bod yn eithriadol o gymleth ac erbyn nawr wedi ei gwblhau'n llwyddiannus. Mae nifer o broblemau tanfodol systemau yn parhau heb eu datrys. Bydd datrys y problemau yma, yn ogystal a'r profiad gwerthfawr enillodd nifer o staff y Cyngor ei hyn, yn darparu sylfaen gadarn gallwn ddatblygu ymhellach a rhoi ffydd y gallwn gwrdd â'r dyddiadau cau ym mlynyddoedd y dyfodol.

## 3. NEWIDIADAU I'R CYFRIFON

**3.1** Darperir nodyn ar y prif newidiadau sydd wedi eu gwneud i'r cyfrifon ac sydd angen eglurhad yn Atodiad 3 o Adroddiad yr Archwilydd, felly ni restrir nhw yma.

**3.2** Mae'r rhan helaeth o'r addasiadau roeddd eu hangen wedi eu cyfyngu i newidiadau ym mhrisiant asedau sefydlog unigol. Er fod angen sawl cywiriad mae angen edrych ar hyn eto yng nghud-destun amgylchiadau arbennig 2010-11. Y pwynt allweddol i'w nodi yw fod y cyfrifon yn seiliedig ar ymarferiad prisiant cynhwysfawr, sydd wedi ei gymodi'n llawn i'r cofnodion cyfrifo, a rhoddwyd sylw i'r gwendidau yr adroddwyd arnynt o'r Gofrestr Asedau blynyddoedd y gorffennol. Wrth ystyried hyn, ynghyd â'r sicrwydd gwerthfawr ychwanegol mae'r archwiliad wedi ei ddarparu, gall y Cyngor nawr fod yn hyderus fod ganddo gofnodion asedau cyflawn a chadarn, sydd eto'n darparu sylfaen gadarn ar gyfer y dyfodol.

## 4. EITEMAU NAD YDYNT WEDI EI HADDASU

**4.1** Mae Adroddiad yr Archwilydd yn adnabod un 'gamddatganiad heb ei gywiro'. Rhoddir manylion amdano ym mharagraff 13 o'r Adroddiad, gyda naratif pellach ym mharagraffau 34-37. Mae'r trafodaethau a gafwyd ynglyn â'r mater wedi bod yn adeiladol ac o gymorth yn amlygu ymhellach y materion allweddol a'u heffaith cyllidol posibl. Fodd bynnag, y farn oedd fod darpariaeth digonol wedi ei wneud yn barod ac nid oedd angen gwneud rhagor (gweler hefyd paragraff 36 o'r Adroddiad). Os yw'r Pwyllgor yn cytuno â'r safbwynt yma, ni fydd angen gwneud addasiad a bydd y Cyngor yn gwneud sylwadau ffurfiol i'r perwyl yma i'r Archwilydd. Cynhwysir hyn yn y Llythyr Sylwadau Terfynol drafft yn Atodaid 1 o Adroddiad yr Archwilydd.

## 5. ARGYMHELLIAD

**5.1** Gofynnir i'r pwyllgor :

**(a)** cadarnhau derbyn y Datganiad Cyfrifon; a

**(b)** cadarnhau nid oes angen gwneud darpariaeth pellach, ar yr adeg yma, ar gyfer costau ôl-ofal safle gwastaff Penhesgyn.

**GILL LEWIS**
**SWYDDOG ADRAN 151 DROS DRO** **2 TACHWEDD 2011**